Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 14 Chwefror 2019 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 8 Chwefror 2019.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir Dianne Rees (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Bale, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Phillips, Robson, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams a/ac Wong

113 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Burke Davies, Congreve, Lent, Sandrey a Wood.

114 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd y datganiadau canlynol o fuddiant mewn perthynas ag Eitem 3 - Hysbysiad o Gynnig.

| **Cynghorydd** | **Buddiant** |
|---|---|
| Y Cyng. Gavin Hill- John | Buddiant personol fel Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd |
| Y Cyng. Ramesh Patel | • Buddiant personol fel Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd tan iddo ymddiswyddo ar 31 Ionawr 2019<br>• Buddiant personol fel Aelod o’r Undeb Unite. |
| Y Cyng. Adrian Robson | Buddiant personol fel Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd tan iddo ymddiswyddo ar 30 Tachwedd 2018 |
| Y Cyng. Ed Stubbs | • Buddiant personol fel Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd Bwrdd Bws Caerdydd<br>• Buddiant personol fel Aelod o’r undebau GMB, Unison a NUJ |
| Y Cyng. Elaine Simmons | • Buddiant personol fel Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd tan iddi ymddiswyddo ar 31 Ionawr 2019 |

| | |
|---|---|
| | • Buddiant personol fel Aelod o'r Undeb Unite. |
| Y Cyng. Shaun Jenkins | Buddiant personol ac ariannol gan fod ei dad wedi'i gyflogi gan Fws Caerdydd. |
| Y Cyng. Dan Naughton | Buddiant personol gan fod aelod teulu yn gyn gyflogai Bws Caerdydd ac yn derbyn pensiwn. |
| Y Cyng. Chris Lay | • Buddiant personol fel Cyfarwyddwr Anweithredol Bws Caerdydd<br>• Buddiant personol fel Aelod o'r undebau GMB a BFAWU |
| Y Cyng. Joel Williams | Buddiant personol gan fod aelod teulu'n Swyddog Undeb Llafur i GMB |
| Y Cyng. Frank Jacobsen | Buddiant personol fel Aelod o'r Undeb ASLEF |
| Y Cyng. Caro Wild | Buddiant personol fel Aelod o Undeb y Gymuned |
| Y Cyng. Huw Thomas | Buddiant personol fel Aelod o'r undebau GMB, Unite a'r Gymuned |
| Y Cyng. Owen Jones | Buddiant personol fel Aelod o'r Undeb USDAW |
| Y Cyng. Keith Parry | Buddiant personol fel Aelod o'r Undeb RMT |
| Y Cynghorwyr Ali Ahmed, Dilwar Ali, Rodney Berman, Lee Bridgeman, Saeed Ebrahim, Jane Henshaw, Keith Jones, Heather Joyce, Ashley Lister, Norma Mackie , Mary McGarry, Michael Michael, Jackie Parry, Kanaya Singh, a Thorne. | Buddiant personol fel Aelodau o'r Undeb GMB |
| Y Cynghorwyr Dan De'Ath a Bob Derbyshire | Buddiant personol fel Aelodau o'r Undeb PCS |
| Y Cynghorwyr Graham Hinchey ac Ashley Lister | Buddiant personol fel Aelodau o'r Undeb Prospect |
| Y Cynghorwyr Susan Elsmore ac Iona Gordon | Buddiant personol fel Aelodau o'r Undeb Unison |
| Y Cynghorwyr Phil Bale, Bernie Bowen Thomson, Peter Bradbury, Stephen Cunnah, Susan Goddard, Russell Goodway, Sarah Merry, Abdul Sattar, Chris Weaver a Peter Wong. | Buddiant personol fel Aelodau o'r Undeb UNITE. |

Yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau gadawodd y Cynghorydd Shaun Jenkins y cyfarfod cyn dechrau'r drafodaeth ar Eitem 3 - Hysbysiad o Gynnig. Arhosodd yr holl

Aelodau Etholedig eraill oedd wedi datgan buddiant ar gyfer y drafodaeth ar Eitem 3 - Hysbysiad o Gynnig.

## 115 : HYSBYSIAD O GYNNIG

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod Hysbysiad o Gynnig wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Gweithdrefn 4 (b) a (c) y Cyngor.

Atgoffodd yr Arglwydd Faer yr Aelodau fod y pwnc dan drafodaeth yn y cynnig yn ymwneud â threfniadau llywodraethu Bwrdd Bws Caerdydd a'i aelodaeth a ddim penderfyniadau gweithredol neu fusnes wedi'u gwneud gan Fws Caerdydd, sydd yn ôl y gyfraith wedi'u gwneud ar sail fasnachol. Felly ni ddylai'r Aelodau gyfeirio at unrhyw wybodaeth sy'n fasnachol sensitif yn ystod y drafodaeth.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Joel Williams gan yr Arglwydd Faer i gynnig y Cynnig fel a ganlyn:

Mae Bws Caerdydd yn is-gwmni Cyngor Caerdydd y perchennir arno'n llwyr, felly Trethdalwyr Caerdydd sy'n perchen arno a fel Cyngor mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod gan Fwrdd Bws Caerdydd yr holl sgiliau i ddelio gyda heriau busnes y presennol a'r dyfodol.

Ar hyn o bryd mae ar Fwrdd Bws Caerdydd 11 Cyfarwyddwr ac mae hefyd Ysgrifennydd y Cwmni, pump sy'n Gynghorwyr Sir Anweithredol sydd wedi'u penodi gan y Cyngor Llawn.

Ym mis Tachwedd 2018 cytunodd y Cyngor Llawn yn ffurfiol i newid nifer y Cynghorwyr Sir o saith i bump i alluogi penodi dau unigolyn annibynnol ar sail eu sgiliau a phrofiad proffesiynol mewn meysydd megis rheoli ariannol a chyffredinol; llywodraethu corfforaethol; a pholisi a/neu reoli trafnidiaeth.

Er mwyn sicrhau bod Bws Caerdydd â'r sgiliau gorau i ddelio gyda heriau busnes y presennol a'r dyfodol mae'r Cyngor yn cynnig yn ffurfiol y canlynol:

Cynigir bod nifer y Cynghorwyr sy'n cael eu penodi fel Cyfarwyddwyr Anweithredol yn cael ei leihau o bump i un er mwyn penodi pedwar Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol arall nad ydynt yn Aelodau Etholedig y Cyngor nac yn gyflogeion y Cyngor neu'r Cwmni.

Yn unol ag arfer da o ran llywodraethu corfforaethol, byddai'r cynnig i benodi pedwar Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol arall yn ategu arbenigedd aelodau'r Bwrdd, gan greu her adeiladol a dwyn rheolwyr i gyfrif.

Felly cynigir y bydd y Cyngor, fel y Cyfranddaliwr, yn ysgrifennu'r ffurfiol i'r Cwmni i roi gwybod iddo o'r newidiadau arfaethedig i'r Erthyglau, y gellir wedyn eu hystyried yn ffurfiol gan y Cwmni yn unol â phroses benderfynu'r Cwmni. Fel yr unig gyfranddaliwr, gall y Cyngor ofyn am newid o'r fath i'r Erthyglau.

Ni fydd y ddarpariaeth hon yn rhwystro gallu unrhyw Gyngor yn y dyfodol rhag penodi hyd at saith Cynghorydd fel Cyfarwyddwyr Anweithredol pe bai am wneud hynny. Ar yr adeg hon y flaenoriaeth yw penodi Cyfarwyddwr Anweithredol yn seiliedig yn unig ar eu sgiliau a phrofiad proffesiynol ond teimlir y dylai fod un Cynghorydd Sir o hyd.

Gofynnodd y Cynghorydd Williams dan Reol Gweithdrefn 25 (a) (xiii) (Cynigion Heb Rybudd) y Cyngor fod datrysiad yn cael ei basio i eithrio’r cyhoedd a’r cyfryngau er mwyn trafod materion cyfrinachol. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Jayne Cowan.

Ar yr adeg hon galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y Cynnig heb rybudd i eithrio’r cyhoedd a’r cyfryngau fel y cynigwyd gan y Cynghorydd Williams.

COLLWYD y bleidlais.

Cwplaodd y Cynghorydd Williams gyflwyno'r Cynnig.

Eiliwyd y cynnig yn ffurfiol gan y Cynghorydd Thomas Parkhill.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig a gofynnodd yr Aelodau i strwythuro eu cyfraniadau i sicrhau nad yw’r cyfle i’r drafodaeth yn gwyro i fusnes sydd y tu allan i gwmpas y cynnig. Cymerodd yr Aelodau canlynol ran yn y drafodaeth: y Cynghorydd Bradbury, Bowden, Robson, Stubbs, Carter, Boyle, Walker, Huw Thomas, Michael, Keith Parry, Bale, Goodway a Patel.

Ar ddiwedd y drafodaeth gwahoddwyd y Cynghorydd Williams gan yr Arglwydd Faer i ymateb i faterion a godwyd yn ystod y drafodaeth cyn i’r bleidlais gael ei bwrw.

Galwodd yr Arglwydd Faer am bleidlais ar y cynnig fel y cyflwynwyd gan y Cynghorydd Williams a’i eiliwyd gan y Cynghorydd Parkhill.

COLLWYD y bleidlais.

## 116 : MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

*(Daeth y cyfarfod i ben am 18.35pm)*